

# Dadansoddiad Cydraddoldeb o Gymwysterau Cyffredinol yn Haf 2021

**Awduron:** John Fuery  
Mark Hogan CStat  
Hannah Williams  
01633 373 253  
[statistics@qualificationswales.org](mailto:statistics@qualificationswales.org)

**Ymholiadau gan y cyfryngau:** Alan Morris  
01633 373 216  
[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

# 1 Cynnwys

2	Pwyntiau allweddol .....	4
3	Cyflwyniad .....	6
4	TGAU .....	8
4.1	Data .....	8
4.2	Dadansoddiad yn seiliedig ar fodel TGAU .....	11
4.3	Rhywedd .....	13
4.4	Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) .....	14
4.5	Cymhwyster am Brydau Ysgol Am Ddim (PYD) .....	15
4.6	Ethnigrwydd .....	16
5	Atodiad I - Nodiadau cefndir .....	17
5.1	Data .....	17
5.1.1	Data TGAU .....	17
5.1.2	Data UG .....	17
5.1.3	Data Safon Uwch .....	18
5.2	Dulliau .....	18
5.3	Pwrpas ac ymdriniaeth y datganiad hwn .....	18
5.4	Newidiadau i'r ystadegau hyn .....	19
5.5	Dylanwadau allanol .....	19
5.6	Cyfyngiadau data .....	19
5.7	Pwy ydym ni .....	20
5.8	Ein hystadegau .....	20
5.9	Sicrwydd ansawdd .....	20
5.10	Diwygiadau .....	20
5.11	Talgrynnu a Chyfrinachedd .....	20
5.12	Defnyddwyr yr ystadegau hyn .....	21
5.13	Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig .....	21
5.14	Gwybodaeth ddefnyddiol .....	21
5.15	Y diweddariad nesaf .....	21

5.16	Adborth defnyddwyr .....	21
6	Atodiad II - Bylchau cyrhaeddiad disgrifiadol .....	22
6.1	TGAU .....	22
6.2	UG .....	25
6.3	Safon Uwch.....	28
7	Atodiad III - Manylion technegol dadansoddi yn seiliedig ar fodel.....	31
8	Atodiad IV - UG .....	34
8.1	Data .....	34
<b>8.2</b>	<b>Dadansoddiad yn seiliedig ar fodel UG.....</b>	<b>36</b>
9	Atodiad V - Safon Uwch.....	39
9.1	Data .....	39
9.2	Dadansoddiad seiliedig ar fodel Safon Uwch .....	41

## 2 Pwyntiau allweddol

- Mae'r datganiad ystadegau arbrofol hwn yn diweddarar'r datganiad ystadegau swyddogol yn 2020 a luniwyd mewn ymateb i ddiddordeb rhanddeiliaid.
- Mae'r dadansoddiad hwn wedi defnyddio'r data mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael, ond i ddarparu dadansoddiad cyson mae'n canolbwyntio ar y prif grŵp oedran ar gyfer pob cymhwyster cyffredinol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yn unig. Felly, gall ffigurau fod yn wahanol i ystadegau cyhoeddus eraill sy'n cynnwys pob grŵp oedran.
- Mae'r datganiad hwn yn cynnwys data canlyniadau ar gyfer 2017-2021. Roedd canlyniadau yn 2021 yn raddau a bennwyd gan ganolfannau yn seiliedig ar asesiad gan athrawon. Y canlyniadau yn 2020 oedd y gorau o radd asesu'r ganolfan a'r radd a gyfrifwyd. Dyfarnwyd canlyniadau yn 2017-2019 yn seiliedig ar berfformiad mewn arholiadau ac asesiad di-arholiad cyn y pandemig.
- Oherwydd bod y samplau'n fach, mae data cefndir ethnig wedi'i agregu i grwpiau ethnig ehangach, wedi'u categorio yn unol â [Chanllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Er mwyn osgoi lleihau maint samplau ymhellach, mae'r categori 'anhysbys neu heb ei nodi' wedi'i gyfrif yn y grŵp cefndir ethnig lleiafrifol.
- Gwelwyd cynnydd nodedig yng nghyfran y dysgwyr TGAU a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yn 2021. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r pandemig a gallai effeithio ar y berthynas rhwng statws eFSM a chyrhaeddiad yn 2021.
- Cyflwynir canlyniadau yn ôl nodweddion dysgwr, a'r gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwahaniaeth (bylchau cyrhaeddiad) yn atodiad II.
- Mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel ar gyfer TGAU yn defnyddio asesiad athro Cyfnod Allweddol 3 i reoli ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r model UG a Safon Uwch yn defnyddio sgôr TGAU cymedrig i reoli ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol. Ond mae sgôr TGAU cymedrig UG 2021 yn cael ei effeithio gan y trefniadau dyfarnu anarferol yn 2020.
- Nid yw'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn 'egluo' gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng grwpiau o ddysgwyr â nodweddion gwahanol (bylchau cyrhaeddiad). Mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn cefnogi gwell dealltwriaeth o sut mae'r bylchau cyrhaeddiad wedi newid. Dylai dehongli canlyniadau'r model gadw mewn cof ansicrwydd ystadegol yr amcangyfrifon a hefyd y ffyrdd cymhleth y gall nodweddion dysgwyr ryngweithio.
- Canlyniad allweddol
  - Ar gyfer TGAU mae'r bwlch cyrhaeddiad rhyw ar sail model yn 2021 yn gulach nag mewn blynyddoedd blaenorol o'i gymharu â chanlyniadau asesu athrawon

ym Mlwyddyn 9, hynny yw, mae'n agosach at y bwlch cyrhaeddiad a awgrymir o ganlyniadau Blwyddyn 9 na'r hyn a welir fel arfer mewn blynyddoedd arholiad. Mae'r bylchau chyrhaeddiad AAA a ethnigwydd yn sefydlog, ac mae'r bwlch cyrhaeddiad prydau ysgol am ddim (PYD) yn ehangach nag mewn blynyddoedd blaenorol.

- Oherwydd bod y samplau'n fach, roedd yr ansicrwydd ystadegol oedd yn gysylltiedig â'r amcangyfrifon UG a Safon Uwch mor fawr fel nad yw'r canlyniadau'n cael eu hystyried yn ddibynadwy. Darperir y canlyniadau hyn mewn atodiad er tryloywder yn unig.

### 3 Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegau arbrofol hwn yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer grwpiau o ddysgwyr dros amser. Cyhoeddir y datganiad hwn fel ystadegau arbrofol gan fod y dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddatblygu o'r newydd ac yn arloesol. Mae'r dadansoddiad hwn yn dilyn ein datganiad ystadegau swyddogol cynharach '[Dadansoddiad o Effaith ar Gydraddoldeb Haf 2020: TGAU, UG a Safon Uwch](#)', a gyhoeddwyd ar y 29 Hydref 2020, a luniwyd yn dilyn cais am wybodaeth bellach gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn eu [llythyr dyddiedig 20 Awst 2020 at y Gweinidog Addysg](#). Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau dadansoddiad model-seiliedig o ganlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr (rhywedd, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (PYD), darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA), a chefnidir ethnig) ar gyfer pob math o gymhwyster cyffredinol. Cyflwynir canlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr, a'r gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng grwpiau o ddysgwyr sydd â nodweddion gwahanol (bylchau cyrhaeddiad) yn yr [atodiad](#).

Mae'r dadansoddiad hwn wedi defnyddio'r data mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael. Ond er mwyn sicrhau cymariaethau dilys dros amser, y data a ddefnyddir yn y dadansoddiad yw'r prif grŵp oedran yn unig (pobl ifanc 16 oed ar gyfer TGAU, ac ati) ac felly, mae'n is-set o'r data ar gyfer pob dysgwr. Felly, bydd y ffigurau yn y dadansoddiad hwn yn wahanol i'r rhai mewn adroddiadau cyhoeddus eraill.

Er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach o fylchau cyrhaeddiad, cyflwynir dadansoddiad yn seiliedig ar y model craidd sy'n amcangyfrif bylchau cyrhaeddiad ar ôl rhoi cyfrif am gyrhaeddiad blaenorol a nodweddion eraill. Gall gwahaniaethau mewn canlyniadau gwirioneddol amrywio ar draws y raddfa radd. Er mwyn darparu bwlch cyrhaeddiad sy'n seiliedig ar fodelau hawdd ei ddehongli, mae'r model craidd yn amcangyfrif y bwlch cyrhaeddiad cyfartalog ar draws pob gradd. Lle nad yw'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn dangos unrhyw effaith ystadegol sy'n gysylltiedig â nodwedd, nid yw'r dadansoddiad yn 'egluo'r' bwlch cyrhaeddiad. Yn lle hynny, mae'n awgrymu mai prin yw'r dystiolaeth ystadegol bod y nodwedd yn gysylltiedig â newid rhwng blynyddoedd yn y bwlch cyrhaeddiad yng nghyd-destun ffactorau eraill. Dylai dehongliad o'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel gadw mewn cof yr ansicrwydd ystadegol a'r ffyrdd cymhleth y gall nodweddion ryngweithio. Defnyddiwyd model ychwanegol i gadarnhau canlyniadau'r model craidd.

Defnyddir sgôr TGAU gymedrig i reoli ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol yn y dadansoddiadau seiliedig ar fodel UG a Safon Uwch. Mewn blynyddoedd lle nad oes pandemig, defnyddir y sgôr TGAU gymedrig i gynhyrchu rhagfynegiadau ar y lefel

genedlaethol i gefnogi dyfarnu ar gyfer UG a Safon Uwch. Mae hyn yn golygu y gallai bylchau cyrhaeddiad ar lefel TGAU ddylanwadu ar fylchau cyrhaeddiad ar lefel UG a Safon Uwch. Oherwydd hyn mae'r modelau UG a Safon Uwch yn amcangyfrif effaith pob nodwedd yn ystod astudiaeth UG a Safon Uwch yn benodol.

## 4 TGAU

Oherwydd bod y samplau'n fach, roedd yr ansicrwydd ystadegol oedd yn gysylltiedig â'r amcangyfrifon UG a Safon Uwch mor fawr fel nad yw'r canlyniadau'n cael eu hystyried yn ddibynadwy. Darperir y canlyniadau hyn mewn atodiad er tryloywder yn unig.

### 4.1 Data

Mae tair ffynhonnell ddata: Cronfa Ddata Arholiadau gyfun Cymru a'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (WEDPLASC) a data asesu athrawon Cyfnod Allweddol 3 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a chanlyniadau cymwysterau lefel dysgwyr yn haf 2021 a ddarparwyd gan y cyrff dyfarnu yn uniongyrchol i Gymwysterau Cymru.

Oherwydd is-osod y data i'r prif grŵp oedran mewn ysgolion a gynhelir a TGAU A\*-G. Roedd y set ddata fodelu derfynol yn cyfrif am rhwng 84.0% a 97.0% o'r holl ymgeisiau dros y cyfnod hwn.

**Tabl 4.1.1 Modelu ymgeisiau set ddata o gymharu â'r holl ymgeisiau (pob dysgwr)**

	2021	2020	2019	2018	2017
Holl ymgeisiau'r haf	322,712	296,002	289,502	268,435	297,380
Data modelu <sup>1</sup>	271,000	274,370	267,740	260,295	256,295
Data modelu fel canran o'r holl ymgeisiau	84.0%	92.7%	92.5%	97.0%	86.2%

Ffynhonnell: Pob ymgais: JCQ, Model data: Llywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu

<sup>1</sup>Pobl ifanc 16 oed, ysgolion a gynhelir, gradd orau, TGAU A\*-G yn unig



Mae tabl 4.1.2 yn rhoi trosolwg o broffil data TGAU. Mae hyn yn cynnwys y proffil a yw'r dysgwr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) ai peidio (nFSM), ac a oedd gan y dysgwr ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA), ai peidio (nSEN).

**Tabl 4.1.2 Proffil demograffig set ddata modelu TGAU**

	2021	2020	2019	2018	2017
Gwryw	50.6%	50.7%	50.6%	50.9%	50.8%
Benyw	49.4%	49.3%	49.4%	49.1%	49.2%
Gwyn Prydeinig	89.2%	90.0%	90.3%	91.3%	91.7%
Lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys lleiafrifoedd Gwyn)	10.8%	10.0%	9.7%	8.7%	8.3%
nPYD	81.6%	85.0%	85.6%	85.6%	85.7%
ePYD	18.4%	15.0%	14.4%	14.4%	14.3%
nAAA	78.9%	78.3%	77.9%	77.7%	78.1%
AAA	21.1%	21.7%	22.1%	22.3%	21.9%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn defnyddio asesiad athrawon CA3 cyfartalog wedi'i normaleiddio i reoli ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Mae Tabl 4.1.3 yn dangos ystadegau disgrifiadol ar gyfer dosbarthu asesiad athrawon CA3 cyfartalog wedi'i normaleiddio. Mae hyn yn dangos y bu cynnydd cyson yn y mesur hwn dros amser.

**Tabl 4.1.3 Cyrhaeddiad blaenorol (asesiad athro CA3 cyfartalog wedi'i normaleiddio)**

	Nifer y dysgwyr	Isafswm	Chwartel isaf	Canolrif	Chwartel uchaf	Uchafswm
2021	29,695	-5.10	-0.654	0.164	0.748	2.97
2020	28,975	-4.98	-0.537	0.164	0.865	2.73
2019	28,455	-5.58	-0.612	0.153	0.791	2.95

2018	27,940	-5.10	-0.771	-0.070	0.631	2.62
2017	28,190	-5.46	-0.888	-0.187	0.514	2.62

---

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gellir gweld y bylchau cyrhaeddiad disgrifiadol yn atodiad II.

## 4.2 Dadansoddiad yn seiliedig ar fodel TGAU

Mae cyfernodau'r model craidd yn amcangyfrif y gwahaniaeth cyfartalog yng nghanlyniadau gradd TGAU sy'n gysylltiedig â phob nodwedd. Mae'r cyfernodau mewn 'unedau gradd', felly mae gwerth 1.5 yn awgrymu bod nodwedd yn gysylltiedig â chanlyniadau TGAU 1.5 gradd yn uwch. Mae manylion technegol pellach y model i'w gweld yn atodiad III. Er enghraifft, mae'r model craidd yn amcangyfrif bod dysgwyr AAA ar gyfartaledd wedi cyflawni graddau 0.13 yn is na'u cymheiriaid yn 2017. Mae'r gwall safonol mewn cromfachau yn awgrymu y gallai'r effaith hon fod mor isel â -0.14, neu mor uchel â -0.12. Ystyriaeth allweddol yw sut mae hyn yn amrywio dros amser, yn enwedig yn 2020 a 2021 a oedd â threfniadau dyfarnu anarferol. Wrth gymharu dros amser, mae'r newid cyfartalog mewn canlyniadau sy'n gysylltiedig â bod yn AAA yn sefydlog.

Y gwahaniaeth cyfartalog (cymedrig) rhwng y canlyniadau gwirioneddol ac amcangyfrifon y model (gweddilliol) ar gyfer pob model yw 0.00 sy'n awgrymu nad oes tuedd yn y model i or-amcangyfrif nac i danamcangyfrif canlyniadau. Mae'r gweddilleb absoliwt cymedrig yn dangos bod y model, ar gyfartaledd, yn tueddu i fod o fewn +/-0.7 i radd y canlyniad gwirioneddol. Mae'r ystod rhyngchwartelol o weddillebau absoliwt yn dangos bod hanner yr holl raddau amcangyfrifedig yn tueddu i fod o fewn 0.26-0.96 i radd y canlyniad gwirioneddol. Mae gwallau safonol yr amcangyfrifon yn fach o'u cymharu â'r amcangyfrifon (cyfernod amrywiad) felly mae ansicrwydd ystadegol isel yn gysylltiedig â'r amcangyfrifon.

**Tabl 4.2.1 Cyfernodau model craidd TGAU (gwallau safonol mewn cromfachau)**

Blwyddyn	Rhynggipiad	Blaenorol	Rhyw (G vs B)	Darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA vs dim-AAA)	Cymhwyster am brydau ysgol am ddim (ePYD vs nPYD)	Ethnigrwyd (Lleiafrif ethnig yn erbyn Gwyn Prydeinig)	Gweddilleb Cymedrig	Gweddilleb Absoliwt Cymedrig	Ystod rhyngchwartelol o weddillebau absoliwt
2021	5.31 (0.03)	1.41 (0.01)	-0.15 (0.01)	-0.13 (0.01)	-0.29 (0.01)	0.22 (0.02)	0.00	0.68	0.25, 0.96
2020	5.18 (0.03)	1.40 (0.01)	-0.20 (0.01)	-0.14 (0.01)	-0.16 (0.01)	0.17 (0.01)	0.00	0.65	0.25, 0.92
2019	4.77 (0.03)	1.44 (0.01)	-0.23 (0.01)	-0.13 (0.01)	-0.21 (0.01)	0.18 (0.02)	0.00	0.71	0.27, 0.99

2018	4.94 (0.03)	1.46 (0.01)	-0.21 (0.01)	-0.13 (0.01)	-0.17 (0.01)	0.27 (0.02)	0.00	0.71	0.26, 0.99
2017	5.14 (0.02)	1.40 (0.01)	-0.19 (0.01)	-0.13 (0.01)	-0.17 (0.01)	0.18 (0.02)	0.00	0.70	0.26, 0.98


Ffynhonnell: Yr holl ddata cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol, a data canlyniadau cyn 2021: Llywodraeth Cymru. Data canlyniadau 2021: cyrff dyfarnu

### 4.3 Rhywedd

Yn 2021, o'i gymharu â'u cyfoedion gwrywaidd â'r un nodweddion, mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn awgrymu bod dysgwyr benywaidd wedi cyflawni graddau a oedd 0.15 o radd yn is. Mae'r bwloch cyrhaeddiad sy'n seiliedig ar fodel hwn yn gulach nag mewn blynyddoedd blaenorol. Ond mae'r canlyniadau gwirioneddol (gweler [atodiad II](#)) yn dangos bod gan ddysgwyr benywaidd ganlyniadau TGAU uwch na dysgwyr gwrywaidd. Gellir egluro'r anghysondeb hwn trwy gyrhaeddiad blaenorol (asesiad athrawon CA3 cyfartalog wedi'i normaleiddio). Mae dysgwyr benywaidd yn tueddu i fod â chyrhaeddiad blaenorol uwch na dysgwyr gwrywaidd, sy'n esbonio'r canlyniadau uwch. Ond pan roddir cyfrif am y cyrhaeddiad blaenorol hwn, mae dysgwyr benywaidd yn tueddu i gyflawni graddau ychydig yn is na'u cyfoedion gwrywaidd gyda'r un cyrhaeddiad blaenorol.

#### **Ffigur 4.3.1 Effaith rhywedd model craidd (benywod mewn perthynas â gwrywod)**

Mae bariau'n cynrychioli amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, mae llinellau fertigol yn cynrychioli ansicrwydd ystadegol tebygol (cyfwng hyder 95%)



Ffynhonnell: Yr holl ddata cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol, a data canlyniadau cyn 2021: Llywodraeth Cymru. Data canlyniadau 2021: cyrff dyfarnu


- (1) Mae bariau'n cynrychioli amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, mae llinellau fertigol yn cynrychioli gwall safonol (lwfans ansicrwydd)

#### 4.4 Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mae ystadegau disgrifiadol yn dangos bod dysgwyr heb ddarpariaeth AAA (dim AAA) wedi cael canlyniadau gwell yn 2021 na dysgwyr â darpariaeth AAA (AAA). Yn gymharol â 2020, roedd y bwlbh hwn yn ehangach ar gyfer A\*-A ac A\*-G ond yn gulach ar gyfer A\*-C (gweler [atodiad II](#)). Fodd bynnag, ar ôl rhoi cyfrif am gyrhaeddiad blaenorol a nodweddion eraill, mae'r model yn amcangyfrif bod dysgwyr AAA ar gyfartaledd wedi cyflawni graddau 0.13 o radd is na dysgwyr nad ydynt yn rhai gydag AAA gyda'r un cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn debyg i flynyddoedd blaenorol.

##### **Ffigur 4.4.1 Effaith AAA model craidd (dysgwyr AAA mewn perthynas â dysgwyr heb fod ag AAA)**

Mae bariau'n cynrychioli amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, mae llinellau fertigol yn cynrychioli ansicrwydd ystadegol tebygol (cyfwng hyder 95%)




Ffynhonnell: Yr holl ddata cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol, a data canlyniadau cyn 2021: Llywodraeth Cymru. Data canlyniadau 2021: cyrff dyfarnu

#### 4.5 Cymhwyster am Brydau Ysgol Am Ddim (PYD)

Mae ystadegau disgrifiadol yn dangos bod gan ddysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) ganlyniadau gwell na dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yn 2021. O'i gymharu â 2020, roedd y bwlch hwn yn ehangach ar gyfer A\*-A, A\*-C, ac A\*-G. Ar ôl cyfrif am gyrhaeddiad blaenorol a nodweddion eraill, mae'r model yn amcangyfrif bod dysgwyr eFSM ar gyfartaledd wedi cyflawni graddau 0.29 o radd is na dysgwyr nFSM gyda'r un cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd cynnydd nodedig yng nghyfran y dysgwyr a oedd yn eFSM yn 2021 ac efallai bod hyn wedi effeithio'n ansoddol ar y mesur hwn.

##### **Ffigur 4.5.1 Effaith PYD (FSM) model craidd (dysgwyr eFSM mewn perthynas â dysgwyr nFSM)**

Mae bariau'n cynrychioli amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, mae llinellau fertigol yn cynrychioli ansicrwydd ystadegol tebygol (cyfwng hyder 95%)




Ffynhonnell: Yr holl ddata cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol, a data canlyniadau cyn 2021: Llywodraeth Cymru. Data canlyniadau 2021: cyrff dyfarnu

## 4.6 Ethnigrwydd

Mae ystadegau disgrifiadol yn dangos bod dysgwyr â chefnidir lleiafrifol ethnig wedi cael canlyniadau gwell yn 2021 na dysgwyr â chefnidir Gwyn Prydeinig. Yn gymharol â 2020, roedd y bwlch hwn yn ehangach ar gyfer A\*-A, A\*-C, ac A\*-G. Ar ôl cyfrif am gyrhaeddiad blaenorol a nodweddion eraill, mae'r model yn amcangyfrif bod dysgwyr â chefnidir lleiafrif ethnig ar gyfartaledd wedi cyflawni graddau 0.22 o radd yn uwch na dysgwyr â chefnidir Gwyn Prydeinig gyda'r un cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn debyg i flynyddoedd diwethaf.

### **Ffigur 4.6.1 Effaith lleiafrifoedd ethnig model craidd (dysgwyr â chefnidir lleiafrif ethnig o'u cymharu â dysgwyr Gwyn Prydeinig)**

Mae bariau'n cynrychioli amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, mae llinellau fertigol yn cynrychioli ansicrwydd ystadegol tebygol (cyfwng hyder 95%)



Ffynhonnell: Yr holl ddata cyrhaeddiad a nodweddion blaenorol, a data canlyniadau cyn 2021: Llywodraeth Cymru. Data canlyniadau 2021: cyrff dyfarnu



## 5 Atodiad I - Nodiadau cefndir

### 5.1 Data

Oherwydd maint bach y samplau, mae data cefndir ethnig wedi'i agregu i grwpiau ethnig ehangach, wedi'u categorio yn unol â [Chanllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Roedd un grŵp ethnig yn y data hanesyddol nad oedd yn bresennol yng nghanllawiau'r GSS (Sipsiwn / Sipsiwn Roma). Cafodd y grŵp hwn ei categorio yn y dadansoddiad hwn yn y grŵp ethnig eang 'Gwyn'. Er mwyn osgoi lleihau maint samplau ymhellach, mae'r categori 'anhysbys neu heb ei nodi' wedi'i gyfrif yn y categori cefndir ethnig lleiafrifol. Ar gyfer bylchau cyrhaeddiad yn ôl darpariaeth AAA, mae dysgwyr sydd â statws darpariaeth AAA o 'gyda datganiad', 'gweithredu gan yr ysgol' neu 'weithredu gan yr ysgol a mwy' i gyd wedi'u cynnwys yn y categori 'AAA'. Defnyddiwyd y term 'rhywedd' yn hytrach na 'rhyw' i fod yn gyson ag ystadegau swyddogol eraill ar ganlyniadau cymwysterau, ond dylid nodi nad yw'n glir pa derm a ddefnyddir wrth gasglu'r data hwn.

#### 5.1.1 Data TGAU

Y data cyrhaeddiad blaenorol a ddefnyddiwyd oedd asesiad athro Cyfnod Allweddol 3 cyfartalog ar gyfer pob dysgwr. Cafwyd nodweddion y dysgwr o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion. Cafwyd canlyniadau'r cymwysterau ar gyfer 2016/17 i 2019/20 yn gynhwysol o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru. Darparwyd y setiau data hyn gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd data ar ganlyniadau cymwysterau yn 2020/21 gan y cyrff dyfarnu.

Roedd y data yn is-set i'r canlyniadau gorau mewn TGAU A\*-G (gan gynnwys cwrs byr, Gwyddoniaeth dyfarniad dwbl, a dyfarniad sengl cwrs llawn) ar gyfer dysgwyr 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae data ar gyfer 2021 yn caniatáu defnyddio'r radd orau o haf 2021 a Thachwedd 2020. Yn anffodus, ni ellid cysylltu'r data hwn â data haf 2020 ac felly nid yw'r data gradd gorau ar gyfer 2021 yn cynnwys graddau haf 2020 ar gyfer dysgwyr a oedd yn 16 oed yn 2021. Er mwyn osgoi gwerthoedd eithafol a gwneud y model yn fwy cadarn, cadwyd data ar gyfer dysgwyr oedd ag o leiaf 10 o werthoedd asesu athrawon CA3.

#### 5.1.2 Data UG

Y data cyrhaeddiad blaenorol a ddefnyddiwyd oedd y sgôr gymedrig TGAU ar gyfer pob dysgwr. Cafwyd nodweddion y dysgwr o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Cafwyd canlyniadau'r cymwysterau ar gyfer 2016/17 i 2019/20 yn gynhwysol o Gronfa

Ddata Arholiadau Cymru. Darparwyd y setiau data hyn gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd data ar ganlyniadau cymwysterau yn 2020/21 gan y cyrff dyfarnu.

Nid yw'r data UG yn cynnwys cymwysterau cymhwysol. Dyfarnwyd TGAU i'r garfan UG 17 oed yn 2021 a gafodd eu heffeithio gan y trefniadau dyfarnu anarferol. Mae hyn yn cymhlethu dehongliad o'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel. Oherwydd materion ansawdd data a oedd yn effeithio ar ddata UG yn unig ni ddefnyddiwyd data 2017 yn y dadansoddiad.

### 5.1.3 Data Safon Uwch

Y data cyrhaeddiad blaenorol a ddefnyddiwyd oedd y sgôr TGAU gymedrig ar gyfer pob dysgwr. Cafwyd nodweddion y dysgwr o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Cafwyd canlyniadau'r cymwysterau ar gyfer 2016/17 i 2019/20 yn gynhwysol o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru. Darparwyd y setiau data hyn gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd data ar ganlyniadau cymwysterau yn 2020/21 gan y cyrff dyfarnu.

Nid yw'r data Safon Uwch yn cynnwys cymwysterau cymhwysol.

## 5.2 Dulliau

Gwnaethom ganolbwyntio'r dadansoddiad ar y prif grŵp oedran ar gyfer pob cymhwyster: Pobl ifanc 18 oed ar gyfer Safon Uwch, pobl ifanc 17 oed ar gyfer UG, a phobl ifanc 16 oed ar gyfer TGAU. Mae'r grwpiau oedran yn seiliedig ar oedran dysgwyr ar 31 Awst ym mhob blwyddyn. Mae hyn yn dileu effaith rhai sy'n ail sefyll ac yn gwneud y cymariaethau yn y dadansoddiad mor ddilys â phosibl.

Tynnwyd y data i'r feddalwedd ystadegol a'r is-set i'r arsylwadau perthnasol cyn ei gyfuno i set ddata fodelu. Cyfrifwyd ystadegau disgrifiadol, a chynhyrchwyd siartiau. Mae dadansoddiad ystadegol sy'n gysylltiedig â nodweddion a ddiogelir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb yn cael ei gyfyngu gan argaeledd data sy'n mesur y nodwedd. Defnyddir cyfeiliornad safonol amcangyfrifon paramedr i ddarparu mesur o'r ansicrwydd ystadegol sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r rhain yn caniatáu i ddefnyddwyr ddehongli dibynadwyedd yr amcangyfrifon hyn ar gyfer y set ddata fodelu yn unig. Nid ydynt yn caniatáu i ddefnyddwyr ddod i gasgliad ystadegol i bob dysgwr gan nad yw'r set ddata modelu yn sampl ar hap syml o'r holl ddysgwyr.

## 5.3 Pwrpas ac ymdriniaeth y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegau arbrofol hwn yn rhoi dadansoddiad o ganlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer grwpiau o ddysgwyr dros amser. Mae'r dadansoddiad hwn yn dilyn ein datganiad ystadegau swyddogol cynharach '[Dadansoddiad o Effaith ar](#)

[Gydraddoldeb Haf 2020: TGAU, UG a Safon Uwch](#), a gyhoeddwyd ar 29 Hydref 2020, a luniwyd yn dilyn cais am wybodaeth bellach gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn eu [llythyr dyddiedig 20 Awst 2020 at y Gweinidog Addysg](#). Ar gyfer pob math o gymhwyster cyffredinol, mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau dadansoddiad model-seiliedig o ganlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr (rhywedd, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (PYD), darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA), a chefnidir ethnig). Cyflwynir canlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr, a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau (bylchau cyrhaeddiad) yn yr [atodiad](#).

#### **5.4 Newidiadau i'r ystadegau hyn**

Roedd yr ystadegau swyddogol blaenorol am ddadansoddiad o effaith ar gydraddoldeb yn darparu bylchau cyrhaeddiad disgrifiadol yn unig. Yn dilyn y datganiad cyntaf, daethpwyd o hyd i ddata ychwanegol i ganiatáu dadansoddiad yn seiliedig ar fodel.

#### **5.5 Dylanwadau allanol**

Oherwydd cau ysgolion a cholegau ac aflonyddwch cyffredinol a achoswyd gan y pandemig COVID-19, cafodd llawer o'r cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu yn 2020 a 2021 mewn ffordd a oedd yn wahanol i'r broses arferol. Ar gyfer rhai cymwysterau, roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn sylweddol wahanol i'r canlyniad mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys data canlyniadau ar gyfer 2017-2021. Roedd canlyniadau yn 2021 yn raddau a bennwyd gan ganolfannau yn seiliedig ar asesiad gan athrawon. Y canlyniadau yn 2020 oedd y gorau o radd asesu'r ganolfan a'r radd a gyfrifwyd. Dyfarnwyd canlyniadau yn 2017-2019 yn seiliedig ar berfformiad mewn arholiadau ac asesiad di-arholiad cyn y pandemig.

#### **5.6 Cyfyngiadau data**

Mae'n bwysig nodi nad yw'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn 'egluo' bylchau cyrhaeddiad nodweddiadol dysgwyr, hynny yw nid yw'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel yn cyfiawnhau gwahaniaeth mewn canlyniadau gwirioneddol trwy awgrymu bod y bwll cyrhaeddiad oherwydd nodweddion eraill. Mae'r model yn cefnogi dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r bylchau cyrhaeddiad wedi newid dros amser. Dylai dehongli canlyniadau'r model gadw mewn cof yr ansicrwydd ystadegol a hefyd y ffyrdd cymhleth y gall nodweddion dysgwyr ryngweithio.

Er bod Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gyrrff dyfarnu ddarparu data cywir inni, ni allwn warantu bod y wybodaeth a roddir inni yn gywir. Rydym yn cymharu'r data dros amser i wirio am unrhyw broblemau neu anghysonderau systemig ac yn ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i ddilysu'r data. Ein nod yw casglu data sy'n ymwneud â dysgwyr a gafodd eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, ond mae'n bosibl y

gellir cynnwys dysgwyr nad ydynt yn Gymry yn y data, neu y gallai rhai dysgwyr o Gymru gael eu heithrio.

## 5.7 Pwy ydym ni

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. O dan [Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015](#), ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

## 5.8 Ein hystadegau

Mae '[Gorchymyn Ystadegau Swyddogol \(Cymru\) 2017](#) yn enwi Cymwysterau Cymru fel un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas [Deddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007](#). Cyhoeddir y datganiad hwn fel ystadegau arbrofol gan fod y dadansoddiad sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddatblygu o'r newydd ac yn arloesol, yn unol â'r [Cod Ymarfer Ystadegau](#).

## 5.9 Sicrwydd ansawdd

Cynhyrchwyd y dadansoddiad hwn yn annibynnol gan dîm Ystadegau Cymwysterau Cymru yn unol â'r [Cod Ymarfer Ystadegau](#). Gwiriwyd y dadansoddiad gan yr aelod o'r tîm a gynhyrchodd y dadansoddiad, cafodd ei wirio eto yn annibynnol gan aelod arall o'r tîm, a derbyniodd gymeradwyaeth lefel uchel y Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau.

Mae manylion pellach am sut rydym yn sicrhau ansawdd y data hwn yn cael eu cynnwys yn ein [Datganiad Dros Dro ar Ansawdd Ystadegol a Sicrwydd Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol](#).

Gellir gohirio cyhoeddi os nad yw'r ystadegau'n cael eu hystyried yn addas at y diben.

## 5.10 Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw'r data hwn fel rheol yn destun adolygiad, er y gellir adolygu datganiadau dilynol i fewnosod data hwyr neu gywiro gwall. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein [Polisi Diwygiadau a Chywiriadau](#).

## 5.11 Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â [Pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru](#), mae ffigyrau llai na 5 ond mwy na 0 yn cael eu disodli gan \*. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y dysgwyr wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r holl ganrannau yn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn gwneud y cyfanswm.

## **5.12 Defnyddwyr yr ystadegau hyn**

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i ddysgwyr, rhieni, athrawon, Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i ddeall bylchau cyrhaeddiad y cymwysterau hyn o ran cydraddoldeb.

## **5.13 Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig**

[Cyhoeddodd Ofqual ystadegau ar ddadansoddiad cydraddoldebau TGAU a Safon Uwch ar gyfer Lloegr.](#)

[Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu \(CCEA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban \(SQA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Eurostat.](#)

## **5.14 Gwybodaeth ddefnyddiol**

Mae rhestr termau ar gael [ar ein gwefan](#) i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) a'n [gwefan ni](#).

## **5.15 Y diweddariad nesaf**

Hydref 2022 (dros dro).

## **5.16 Adborth defnyddwyr**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei anfon trwy e-bost i [ystadegau@qualificationswales.org](mailto:ystadegau@qualificationswales.org).

© (2021) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Gymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

## 6 Atodiad II - Bylchau cyrhaeddiad disgrifiadol

### 6.1 TGAU

Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer canlyniadau'r model, cyflwynir y bylchau disgrifiadol mewn cyraeddiadau yn seiliedig ar y data modelu yn y tablau isod. Bydd y ffigurau hyn yn wahanol i'r ystadegau am y bwch cyrhaeddiad a gyhoeddir mewn man arall oherwydd bod y set ddata fodelu yn is-set o bob gradd.

**Tabl 6.1.1 Canlyniadau TGAU a bylchau cyrhaeddiad yn ôl rhywedd**

Set ddata modelu yn unig

	Nifer y canlyniadau		A*-A			A*-C			A*-G		
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	(G - B)	Gwryw	Benyw	(G - B)	Gwryw	Benyw	(G - B)
2021	133,950	137,050	24.2%	35.2%	11.0pp	71.0%	79.0%	8.0pp	98.8%	99.1%	0.3pp
